Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU**
a gynhaliwyd fel sesiwn fideogynadledda o bell ar
**18 Tachwedd 2020**

**YN BRESENNOL:**

Mr Hywel Wyn Jones (Cadeirydd), Mrs Caroline White, Ms Carol Edwards, Mr John Weston a Mr Rif Winfield (Aelodau Annibynnol);
Cynghorydd Odwyn Davies a Chynghorydd Dai Mason (Aelodau Etholedig)
Cynghorydd Gill Hopley (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)

(10am – 12.15pm)

S1 **Ymddiheuriadau**
Roedd Cynghorydd Julian Evans wedi ymddiheuro na fyddai'n gallu mynychu'r cyfarfod.

S2 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Datgelwyd budd personol a a budd sy'n rhagfarnu gan Gynghorydd Gill Hopley mewn perthynas â cheisiadau a gafwyd ynghylch Cyngor Tref Ceinewydd, a gadawodd y sesiwn fideogynadledda wrth i'r eitemau hyn gael eu hystyried.

S3 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Awst 2020**
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 05 Awst 2020 yn gofnod cywir.

**Materion yn Codi**
Dim.

S4 **Ceisiadau am ollyngiad**

**(i) Y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cyngor Sir Ceredigion**
Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 22 Medi 2020 gan Y Cynghorydd Elizabeth Evans i siarad yn unig am Gynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron (gan gynnwys harbwr Aberaeron a Phwll Cam, Aberaeron). Mae mam y Cynghorydd Evans yn byw yn Stryd y Farchnad, Aberaeron. Mae ei chartref yn edrych yn uniongyrchol dros y maes parcio gerllaw, sef Pwll Cam. Mae teulu'r Cynghorydd Evans yn berchen ar adeilad yn Rhif 18 Stryd y Farchnad, Aberaeron hefyd – nid yw hi'n cael unrhyw incwm ohono ac nid yw hi'n berchen ar unrhyw ran o'r eiddo.

Roedd y Cynghorydd Evans yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei chais ac i ateb cwestiynau yn ei gylch.

Gofynnwyd i’r Cynghorydd Evans adael y sesiwn fideogynadledda er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei chais.

PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i’r Cynghorydd Evans **siarad yn unig** ar y sail bod natur budd yr aelod yn golygu na fyddai ei chyfranogiad, yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef, yn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o gyflawni busnes perthnasol yr awdurdod; a bod modd cyfiawnhau ei chyfranogiad yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef oherwydd ei rôl neu ei harbenigedd penodol; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Caniatawyd y gollyngiad am gyfnod o **12 mis.**

**(ii) Y Cynghorydd Elizabeth Evans, Cyngor Tref Aberaeron**
Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 22 Medi 2020 gan y Cynghorydd Elizabeth Evans i siarad yn unig am Gynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron (gan gynnwys harbwr Aberaeron a Phwll Cam, Aberaeron). Mae mam y Cynghorydd Evans yn byw yn Stryd y Farchnad, Aberaeron. Mae ei chartref yn edrych yn uniongyrchol dros y maes parcio gerllaw, sef Pwll Cam. Mae teulu’r Cynghorydd Evans yn berchen ar adeilad yn Rhif 18 Stryd y Farchnad, Aberaeron hefyd – nid yw hi'n cael unrhyw incwm ohono ac nid yw hi'n berchen ar unrhyw ran o'r eiddo.

Roedd y Cynghorydd Evans yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei chais ac i ateb cwestiynau yn ei gylch.

Gofynnwyd i’r Cynghorydd Evans adael y sesiwn fideogynadledda er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei chais.

PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i’r Cynghorydd Evans **siarad yn unig** ar y sail bod natur budd yr aelod yn golygu na fyddai ei chyfranogiad, yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef, yn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o gyflawni busnes perthnasol yr awdurdod; a bod modd cyfiawnhau ei chyfranogiad yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef oherwydd ei rôl neu ei harbenigedd penodol; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Caniatawyd y gollyngiad am gyfnod o **12 mis.**

**(iii) Y Cynghorydd Dan Potter, Cyngor Sir Ceredigion**
Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 30 Hydref 2020 gan y Cynghorydd Dan Potter i siarad yn unig am faterion a drafodir ynghylch yr harbwr ym Mhwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr Ceinewydd, a gynhelir cyn i’r tymor ddechrau ac ar ôl i’r tymor orffen (Mawrth a Hydref). Mae’r Cynghorydd Potter yn berchen ar ‘New Quay Marine’, busnes cychod sy'n trwsio cychod yn yr harbwr. Fe'i cyflogir bob blwyddyn gan Gyngor Sir Ceredigion hefyd i gynnal y safle nofio fel contractwr ardal Nofio Ddiogel. Yn ogystal, mae’r Cynghorydd Potter yn rhentu dwy angorfa drwy brydles gan Gyngor Sir Ceredigion ac mae'n berchen ar sied y tu allan i orsaf y bad achub a hen orsaf gwyliwr y glannau ym Mharagon. Mae'n cael £40 yr wythnos hefyd am gyflawni rôl llywiwr cwch Bad Achub/Sefydliad Brenhinol Badau Achub Ceinewydd.

Roedd y Cynghorydd Potter yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais ac atebodd gwestiynau yn ei gylch.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Potter adael y sesiwn fideogynadledda er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Potter **siarad yn unig** ar y sail bod natur budd yr aelod yn golygu na fyddai ei gyfranogiad, yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef, yn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o gyflawni busnes perthnasol yr awdurdod; a bod modd cyfiawnhau ei gyfranogiad yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef oherwydd ei rôl neu ei arbenigedd penodol; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001). Caniatawyd y gollyngiad am gyfnod o **12 mis.**

**(iv) Y Cynghorydd Dan Potter, Cyngor Sir Ceredigion**

Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 30 Hydref 2020 gan y Cynghorydd Dan Potter i siarad a phleidleisio ar faterion a drafodir ynghylch yr harbwr a'r traeth yng Ngheinewydd. Mae'r Cynghorydd Potter yn berchen ar 'New Quay Marine', busnes cychod sy'n trwsio cychod yn yr harbwr. Fe'i cyflogir bob blwyddyn gan Gyngor Sir Ceredigion hefyd i gynnal y safle nofio fel contractwr ardal Nofio Ddiogel. Yn ogystal, mae'r Cynghorydd Potter yn rhentu dwy angorfa drwy brydles gan Gyngor Sir Ceredigion ac mae'n berchen ar sied y tu allan i orsaf y bad achub a hen orsaf gwyliwr y glannau ym Mharagon. Mae'n cael £40 yr wythnos hefyd am gyflawni rôl llywiwr cwch Bad Achub/Sefydliad Brenhinol Badau Achub Ceinewydd.

Roedd y Cynghorydd Potter yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais ac atebodd gwestiynau yn ei gylch.

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Potter adael y sesiwn fideogynadledda er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Potter **siarad a phleidleisio** ar y sail bod natur budd yr aelod yn golygu na fyddai ei gyfranogiad, yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef, yn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o gyflawni busnes perthnasol yr awdurdod; a bod modd cyfiawnhau ei gyfranogiad yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef oherwydd ei rôl neu ei arbenigedd penodol; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001). Caniatawyd y gollyngiad am gyfnod o **12 mis.**

**(v) Y Cynghorydd Dan Potter, Cyngor Tref Ceinewydd**

Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 30 Hydref 2020 gan y Cynghorydd Dan Potter i siarad a phleidleisio ar faterion a drafodir ynghylch yr harbwr a'r traeth yng Ngheinewydd. Mae'r Cynghorydd Potter yn

berchen ar ‘New Quay Marine’, busnes cychod sy'n trwsio cychod yn yr harbwr. Fe'i cyflogir bob blwyddyn gan Gyngor Sir Ceredigion hefyd i gynnal y safle nofio fel contractwr ardal Nofio Ddiogel. Yn ogystal, mae’r Cynghorydd Potter yn rhentu dwy angorfa drwy brydles gan Gyngor Sir Ceredigion ac mae'n berchen ar sied y tu allan i orsaf y bad achub a hen orsaf gwyliwr y glannau ym Mharagon. Mae'n cael £40 yr wythnos hefyd am gyflawni rôl llywiwr cwch Bad Achub/ Sefydliad Brenhinol Badau Achub Ceinewydd.

Roedd y Cynghorydd Potter yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais ac atebodd gwestiynau yn ei gylch.

Gofynnwyd i’r Cynghorydd Potter adael y sesiwn fideogynadledda er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i’r Cynghorydd Potter **siarad yn unig** ar y sail bod natur budd yr aelod yn golygu na fyddai ei gyfranogiad, yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef, yn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o gyflawni busnes perthnasol yr awdurdod; a bod modd cyfiawnhau ei gyfranogiad yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef oherwydd ei rôl neu ei arbenigedd penodol; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001). Caniatawyd y gollyngiad am gyfnod o **12 mis.**

**(vi) Y Cynghorydd Dan Potter, Cyngor Tref Ceinewydd**

Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 5 Tachwedd 2020 gan y Cynghorydd Dan Potter i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â phrosiect arfaethedig, y bydd Swyddog Datblygu Digidol Cyngor Sir Ceredigion yn mynychu cyfarfod o Gyngor y Dref i'w drafod. Mae'r prosiect yn cynnig y dylid mabwysiadu technoleg sy'n cynnig y gallu i adalw data megis nifer yr ymwelwyr, lefel y defnydd, ymddygiad ac arferion siopa; y gellir ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir gan fusnesau lleol er mwyn gweithredu mewn ffordd fwy effeithlon (amseroedd agor, lefelau staffio ac ati). Y nod yw cynorthwyo busnesau lleol a hyrwyddo'r economi leol, yn enwedig o ystyried yr amgylchiadau a'r ansicrwydd sy'n parhau, lle y bydd mwy o wybodaeth yn cyflawni rôl bwysig wrth ganiatáu i fusnesau, yn ogystal â'r sector twristiaeth, i wynebu'r sialensiau wrth ymateb i Covid. Mae’r Cynghorydd Potter yn berchen ar ‘New Quay Marine’, busnes cychod sy'n trwsio cychod yn yr harbwr, ac fe allai'r cynnig hwn gynnig budd iddo oherwydd y gallai'r cynllun arfaethedig gynnig budd i'r economi leol.

Roedd y Cynghorydd Potter yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais ac atebodd gwestiynau yn ei gylch.

Gofynnwyd i’r Cynghorydd Potter adael y sesiwn fideogynadledda er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ei gais.

PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i’r Cynghorydd Potter **siarad a phleidleisio** ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw;  a bod natur budd yr aelod yn golygu na fyddai ei gyfranogiad yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o gyflawni busnes perthnasol yr awdurdod;  (rheoliad 2 (a) a (d) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001). Caniatawyd y gollyngiad am gyfnod o **12 mis.**

**(vii) Y Cynghorydd Jennifer Davies, Cyngor Tref Ceinewydd**
Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 5 Tachwedd 2020 gan y Cynghorydd Jennifer Davies i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â phrosiect arfaethedig, y bydd Swyddog Datblygu Digidol Cyngor Sir Ceredigion yn mynychu cyfarfod o Gyngor y Dref i'w drafod. Gallai’r prosiect helpu'r Cyngor ac economi Ceinewydd gan fod gwybodaeth yn cael ei chasglu.  Mae’r Cynghorydd Davies yn rhedeg Canolfan Treftadaeth Ceinewydd fel gwirfoddolwr ar ran Cyngor Tref Ceinewydd.

PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i’r Cynghorydd Davies **siarad a phleidleisio** ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw;  a bod natur budd yr aelod yn golygu na fyddai ei chyfranogiad yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o gyflawni busnes perthnasol yr awdurdod;  (rheoliad 2 (a) a (d) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001). Caniatawyd y gollyngiad am gyfnod o **12 mis.**

**(viii) Y Cynghorydd Julian Evans, Cyngor Tref Ceinewydd**
Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 5 Tachwedd 2020 gan y Cynghorydd Julian Evans i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â phrosiect arfaethedig, y bydd Swyddog Datblygu Digidol Cyngor Sir Ceredigion yn mynychu cyfarfod o Gyngor y Dref i'w drafod.  Y Cynghorydd Evans yw Cadeirydd Neuadd Goffa Ceinewydd, a gallai gael budd o'r gwaith o gasglu data y gallai'r Swyddog Digidol ei ddarparu.  Mae'n ymddiriedolwr llyfrgell Gymunedol Ceinewydd hefyd.

PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i’r Cynghorydd Evans **siarad a phleidleisio** ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw;  a bod natur budd yr aelod yn golygu na fyddai ei gyfranogiad yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o gyflawni busnes perthnasol yr awdurdod;  (rheoliad 2 (a) a (d) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001). Caniatawyd y gollyngiad am gyfnod o **12 mis.**

**S5 Unrhyw geisiadau eraill am ollyngiad a gafwyd ers y cyhoeddwyd yr agenda**

(i) **Y Cynghorydd Brett Stones, Cyngor Tref Ceinewydd**

Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 15 Tachwedd 2020 gan y Cynghorydd Brett Stones i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â phrosiect arfaethedig, y bydd Swyddog Datblygu Digidol Cyngor Sir Ceredigion yn mynychu cyfarfod o Gyngor y Dref i'w drafod. Mae'r Cynghorydd Stones yn berchen ar siop rhoddion a busnes cludfwyd yn y dref.

PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Stones **siarad a phleidleisio** ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw; a bod natur budd yr aelod yn golygu na fyddai ei chyfranogiad yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o gyflawni busnes perthnasol yr awdurdod; (rheoliad 2 (a) a (d) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001). Caniatawyd y gollyngiad am gyfnod o **12 mis.**

(ii) **T Cynghorydd Marc Rees, Cyngor Tref Ceinewydd**

Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 15 Tachwedd 2020 gan y Cynghorydd Marc Rees i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â phrosiect arfaethedig, y bydd Swyddog Datblygu Digidol Cyngor Sir Ceredigion yn mynychu cyfarfod o Gyngor y Dref i'w drafod. Mae'r Cynghorydd Rees yn berchen ar faes parcio gyferbyn â Sup Shack yng Ngheinewydd.

PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Rees **siarad a phleidleisio** ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw; a bod natur budd yr aelod yn golygu na fyddai ei gyfranogiad yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o gyflawni busnes perthnasol yr awdurdod; (rheoliad 2 (a) a (d) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001). Caniatawyd y gollyngiad am gyfnod o **12 mis.**

(iii) **Y Cynghorydd Steve Hartley, Cyngor Tref Ceinewydd**

Cafwyd cais am ollyngiad dyddiedig 15 Tachwedd 2020 gan y Cynghorydd Steve Hartley i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â phrosiect arfaethedig, y bydd Swyddog Datblygu Digidol Cyngor Sir Ceredigion yn mynychu cyfarfod o Gyngor y Dref i'w drafod. Mae'r Cynghorydd Hartley yn berchen ar fusnes cychod sy'n cludo pobl i weld y bywyd gwyllt ym Mae Ceredigion. Mae'n berchen ar faes carafanau yng Ngilfachreda hefyd, sef Maes Carafanau Frondeg.

PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Hartley **siarad a phleidleisio** ar y sail nad oes gan lai na hanner aelodau'r awdurdod

perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod (yn unol â'r achos dan sylw) a fydd yn ystyried y busnes, fudd sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw; a bod natur budd yr aelod yn golygu na fyddai ei gyfranogiad yn y busnes y mae'r budd yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o gyflawni busnes perthnasol yr awdurdod; (rheoliad 2 (a) a (d) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001). Caniatawyd y gollyngiad am gyfnod o **12 mis.**

S6 **Recriwtio Aelodau Annibynnol**

Cyflwynodd y Swyddog Craffu a Safonau yr adroddiad ynghylch recriwtio 2 aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor. Penodwyd y Cadeirydd presennol, Mr Hywel Wyn Jones a Mr Rif Winfield ar 27/9/2011 yn wreiddiol ac fe'u hailbenodwyd ar 27/9/2017. Bydd eu cyfnod yn y swydd yn dod i ben ar 26/9/2021. Ni fydd yr aelodau hyn yn gymwys i gael eu hailethol nawr. O ganlyniad, mae angen recriwtio dau aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau er mwyn cynnal cyfansoddiad y Pwyllgor, fel y nodir yn y Cyfansoddiad ac fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth.

CYTUNODD y Pwyllgor argymell i'r Cyngor:

**1)** Y disgrifiad swydd, y fanyleb person a'r meini prawf yn unol â'r diwygiadau canlynol:

- Diwygio “byw a/neu weithio yn yr ardal” i “Fyw a/neu weithio yng Ngheredigion”; a bod y gofyniad hwn yn cael ei newid i fod yn un hanfodol;
- Gwaredu'r tabl sy'n cyfeirio at lefelau sgiliau Ieithyddol.

**2)** Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:

- Cadeirydd y Cyngor
- Aelod Annibynnol/Lleyg (a enwebwyd gan y Swyddog Monitro)
- Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu aelodau annibynnol eraill a enwebir gan y Swyddog Monitro yn ôl yr angen)
- Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned a enwebir gan Un Llais Cymru.

**3)** Enwebu’r Athro John Williams i fod yn Aelod Panel Annibynnol/Lleyg

S7 **YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU – Rheoliadau er mwyn sefydlu cyd-bwyllgorau**

Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar y rheoliadau drafft a fydd yn sefydlu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar draws Cymru. Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i ystyried cwestiynau 8 (a) (b) a (c) yn y ddogfen ymgynghori.

CYTUNWYD y dylai aelodau a staff y Cyd-bwyllgor Corfforaethol ymrwymo i God Ymddygiad ac y dylai'r cod fod yn debyg i'r cod sydd gan y Prif Gynghorau ac y bydd y cod yn gymwys ar gyfer pob aelod

cyfetholedig h.y. y rhai sydd â hawliau pleidleisio a'r rhai heb hawliau pleidleisio. Bydd hyn yn rhan o'r ymateb corfforaethol i'r ymgynghoriad.

S8 **Diweddariad am faterion gan y Swyddog Monitro**

Dosbarthwyd adroddiad gan y BBC o'r enw 'Covid: Councillor 'reckless' for 5G masts claims', a gyhoeddwyd ar 29 Medi, i Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Cafwyd trosolwg o adroddiad pellach gan y BBC o'r enw 'Penketh Parish Council chair apologises for abusive outburst' gan y Swyddog Monitro.

CYTUNWYD nodi cynnwys yr adroddiadau.

S9 **Diweddariad am faterion Panel Dyfarnu Cymru**

Adroddwyd y bu nifer o newidiadau ym Mhanel Dyfarnu Cymru. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y dogfennau a ddiweddarwyd, sef:

- Canllawiau Llywyddol: Bod yn ddienw
- Canllawiau Llywyddol: Datgelu
- Canllawiau Llywyddol: Rôl y Swyddog Monitro mewn achosion gan Banel Dyfarnu Cymru

CYTUNWYD nodi cynnwys y dogfennau hyn.

Cafwyd trosolwg gan y Cadeirydd o adroddiad penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru mewn perthynas â'r Cynghorydd Neil McEvoy, Cyngor Dinas Caerdydd, a hysbyswyd yr Aelodau bod yr adroddiad ar gael ar wefan Panel Dyfarnu Cymru.

S10 **Diweddariad am faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**

Ni chyhoeddwyd unrhyw Lyfrau o Achosion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad newydd ers y cyfarfod diwethaf.

S11 **Hyfforddiant**

Cytunwyd y dylai swyddogion ystyried cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant trwy gyfrwng cyfleuster fideogynadledda neu hyfforddiant wedi'i recordio ymlaen llaw, a gofyn i Gynghorau Tref/Cymuned a ydynt yn dymuno cael unrhyw hyfforddiant am y cod ac am gynnal cyfarfodydd o bell.

S9 **Unrhyw Fater arall**

Adroddwyd bod y Swyddog Monitro a'r Swyddog Craffu a Safonau yn cynnal adolygiad o Weithdrefn Gwrandawiadau'r Cyngor ar hyn o bryd, ac y byddai dogfennau diwygiedig Panel Dyfarnu Cymru yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad.

**Cadarnhawyd yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021**

**CADEIRYDD:**_________________________

**DYDDIAD:**____________________________________